| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 25 Mehefin 2024 |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Awdur yr Adroddiad** | Liz Wilcox-Jones (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd Dros Dro) |
| **Teitl** | Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22-2029/30) - adolygiad ac adnewyddiad Blwyddyn 3 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Adolygiad ac Adnewyddiad Blwyddyn 3 Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22-2029/30) [a oedd yn cael ei galw'n flaenorol fel Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol CSDd (2021/22-2029/30)].

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno'r ddogfen strategaeth derfynol er mwyn i'r Cabinet benderfynu a ddylid argymell ei mabwysiadu i'r Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn argymell mabwysiadu Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22-2029/30) i'r Cyngor. (Atodiad 1)

3.2 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau. (Atodiad 2)

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Bu i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i ddod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030 fan bellaf a gwella bioamrywiaeth ar draws y Sir ymysg pethau eraill. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22–2029/30) ym mis Chwefror 2021, sy'n ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, yn ogystal â lleihau allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu (cadwyn gyflenwi'r Cyngor) 35% erbyn 2030. Gwnaeth y Cyngor hefyd addasu ei Gyfansoddiad ym mis Hydref 2020, fel bod yn rhaid i bob penderfyniad gan y Cyngor 'roi ystyriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol'.

4.2. Bydd Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22-2029/30) yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob 3 blynedd. Cafodd y Strategaeth ei hadolygu a'i hadnewyddu yn swyddogol am y tro cyntaf yn 2023/24 a bu'r broses honno'n un drylwyr (gweler Atodiad 3).

4.3. Mae'r prif feysydd yn y strategaeth a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn cynnwys:

- Newid enw i: Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych (2021/22-2029/30) [o Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 – 2029/30)].
- Ychwanegu tair adran newydd sy'n cydnabod y dylanwad ehangach y gall y Cyngor ei gael i sicrhau newid yn y rhaglen hon ar draws Sir Ddinbych, yr angen am wella gwytnwch rhag newid yn yr hinsawdd sydd bellach yn beth arferol ac ymateb i gwmpas cynyddol mewn cynlluniau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys 'Lleihau allyriadau a chynyddu amsugniad ar draws Sir Ddinbych', 'Cynyddu ein gwytnwch ar draws y Sir' ac 'Adfer Natur ar draws Sir Ddinbych'.
- Cyflwyno atodiad technegol fel lle i gynnwys hanes newidiadau i brosesau/polisïau sydd wedi'u cwblhau a phrosiectau/gweithgareddau oedd wedi'u cynnwys mewn cyhoeddiadau blaenorol o ddogfen y Strategaeth a darparu gwybodaeth fanylach

am berfformiad hyd yma. Mae hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am feysydd lle mae'r targed wedi profi i fod yn heriol iawn.

- Mae'r newidiadau penodol i brosesau/polisïau a chamau gweithredu/prosiectau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth wedi'u diweddaru yn y ddogfen ddrafft. Mae eitemau sydd wedi'u cwblhau wedi'u rhestru yn yr atodiad technegol.

4.4 Rydym wedi nodi'n glir yn y strategaeth y meysydd allyriadau y gwyddom a fydd yn profi'n heriol o ran cyflawni'r targedau rydym wedi'u gosod i'n hunain erbyn 2030, megis mewn adeiladau, defnydd tir a chymudo staff, gan ein bod o'r farn ei bod hi'n bwysig bod yn dryloyw ynghylch ein cynnydd. Mae'r atodiad technegol yn egluro beth rydym yn disgwyl ei gyflawni (o ran lleihau ac amsugno carbon) yn y meysydd hynny a'r rhesymau pam nad yw ein trywydd a'n cynnydd yn cyd-fynd ar hyn o bryd. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys argaeledd cyllid, argaeledd o ran gallu a chapasiti o fewn y gadwyn gyflenwi i lunio a darparu cynlluniau lleihau carbon mewn adeiladau, cyfanswm y tir sydd ar gael o fewn perchnogaeth CSDd sy'n addas ar gyfer plannu rhagor o goed, achos ariannol gwannach oherwydd pris trydan, ansawdd data a chyflymder datblygiad technolegau gwyrdd.

4.5 Er ein bod yn cydnabod ac yn dryloyw ynglŷn â'r her hon, yr hyn sy'n bwysig yw nad ydym ni'n newid ein huchelgeisiau Di-garbon Net gwreiddiol erbyn 2030. Byddai gwneud hynny'n arwain at golli momentwm mewn maes blaenoriaeth sy'n rhy bwysig i laesu dwylo yn ei gylch. Rydym yn cadw at ein nodau Cyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 a byddwn yn parhau i weithio'n galed i fod mor agos â phosibl at eu cyflawni erbyn 2030.

4.6 Mae adran ariannol y strategaeth wedi'i diweddaru, fel ei bod yn cynnwys y gost ddisgwyliedig dros y 6 blynedd nesaf. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost honno yn o leiaf £48 miliwn, pe baem yn cyflawni ein nodau Cyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030, ac mae hynny'n seiliedig ar gostau'r prosiect hyd yma a'r arbedion carbon sydd wedi'u cyflawni gan y prosiectau hynny. Mae'n bwysig nodi nad ydym yn disgwyl i'r cyllid ar gyfer y cynlluniau sydd angen eu cyflawni ddod o gyllidebau Cyngor Sir Ddinbych yn unig. Yn wir, mae 36% o'r prosiectau sydd wedi'u cyflawni hyd yma wedi'u hariannu gan gyllid grant allanol- ac mae'r Cyngor yn dymuno cynyddu'r ganran honno mewn blynyddoedd i ddod.

4.7 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ar Strategaeth Ddrafft Blwyddyn 3 am 8 wythnos rhwng 25 Mawrth a 20 Mai. Cafodd y strategaeth ddrafft ei thrafod yn holl Grwpiau Ardal yr Aelodau ym mis Ebrill a mis Mai. Derbyniwyd cyfanswm o 336 o ymatebion ac roedd 88% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r ddogfen strategaeth ddiwygiedig. Derbyniwyd sawl darn o adborth ynghylch sut y gallai'r Cyngor wella'r ddogfen strategaeth ddiwygiedig ymhellach; mae cymaint â phosibl o'r rhain wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol sydd i'w weld yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad cryno o adborth yr ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 4 a bydd yn cael ei uwchlwytho i borth ymgynghori'r Cyngor ar ôl iddo gael ei gyfieithu.

4.8 Er mwyn gwneud y ddogfen hir hon yn haws i'w darllen, bydd Crynodeb Gweithredol o'r strategaeth yn cael ei lunio, yn ogystal â Fersiwn Ieuenctid.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn cael ei defnyddio yn allweddol o ran cefnogi datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor (2019) a oedd yn ymrwymo'r Cyngor i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. Mae adnewyddu'r targedau, llwybrau cyrhaeddiad a gweithgareddau yn rheolaidd yn helpu i gynnal y ffocws a'r dyhead sydd eu hangen i gyflawni'r Strategaeth er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei nod at 2030 o fod yn Ddi-garbon Net, Ecolegol Gadarnhaol a gweld gostyngiad o 35% yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Bydd cyflawni'r Strategaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at y thema 'Sir Ddinbych mwy gwyrdd' yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd rhai o'r newidiadau a'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf, bydd eraill yn gofyn am gyllid refeniw a rhai y gellir eu darparu am ddim cost ychwanegol. Bydd llawer o'r newidiadau a'r camau gweithredu yn arbed arian i'r Cyngor yn yr hirdymor. Ceir manylion pellach yn adran 4.6. Bydd yr holl ymyriadau'n cael eu harfarnu'n unigol- yn ariannol, drwy achosion busnes cyfalaf a thrwy brosesau a chynlluniau cyllideb refeniw, ac er mwyn sicrhau lles a chynaliadwyedd, drwy'r broses hir sefydledig o asesu effaith ar les.

6.2 Mae cynnal ein Cyngor mewn modd carbon isel ac ecolegol gadarnhaol, yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynllunio a darparu ein gwasanaethau mewn modd gwahanol ac mae hynny'n golygu newid polisi. Bydd parhau i gyd-fynd â chynlluniau busnes gwasanaethau, rheoli perfformiad, mecanweithiau rheoleiddio a gwneud penderfyniadau o ran y nodau Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cefnogi'r gwaith o'i gyflawni.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae asesiad o effaith ar les dogfen strategaeth ddiwygiedig Blwyddyn 3 i'w weld yn Atodiad 5. Mae amddiffyn a gwella lles cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol wrth wraidd y strategaeth, yn ôl ei natur o drechu newid hinsawdd a newid ecolegol. Dan bum egwyddor cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fe sgoriodd y Strategaeth 3 seren o 4 (sgôr gwirioneddol: 32/36). O ran saith nod lles y Ddeddf, mae effaith bosibl y Strategaeth wedi'i harfarnu i fod yn gadarnhaol i 6 a niwtral i 1.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Gweler y manylion yn adran 4.2, atodiad 3 ac adran 4.7 yn yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych wedi golygu buddsoddiad ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i fod angen buddsoddiad wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, gallai'r pwysau ariannol mae'r Cyngor nawr yn ei wynebu effeithio ar y cyllid sydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf. Er y gellir cynnal yr adolygiad ei hun o fewn adnoddau sy'n bodoli, mae'n bwysig bod y rhaglen yn parhau i weithio trwy gydol prosesau gosod cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor pan mae gofynion adnoddau ychwanegol yn dod i'r amlwg.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau sylweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 5.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 6).